# Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

# Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

# Cwricwlwm i Gymru Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

**Rhagair gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd**

Ym mis Medi 2022, byddwn yn gweld newid mawr yn ein system addysg, gyda chyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Ers i'r Athro Graham Donaldson gyflwyno ei weledigaeth drwy gyhoeddi 'Dyfodol Llwyddiannus', mae pob sefydliad addysgol yng Nghymru wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd. Un agwedd bwysig ar y gwaith paratoi hwn fu i ysgolion greu cwricwlwm sy'n benodol i'w lleoliad neu eu clwstwr, a fydd yn diwallu anghenion eu holl ddysgwyr. Er mwyn cefnogi ysgolion gyda'r broses hon, mae canllawiau wedi'u llunio ar draws y gwahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad. Ar ddechrau 2022, galwodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ynghyd i ddyfeisio'r Maes Llafur Cytunedig newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) a benderfynwyd yn lleol i gyd-fynd â Deddf Cwricwlwm i Gymru 2021.

Mae'n bwysig cydnabod natur annatod CGM o fewn Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (MDPh), gan barhau i werthfawrogi'r cyfraniad unigryw a gwahanol y mae CGM yn ei wneud i Gwricwlwm Cymru. Mae'r maes hwn yn ymgorffori daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg, ac astudiaethau busnes. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o'r un themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy, ac yn cynnwys eu gwybodaeth a'u sgiliau gwahanol eu hunain hefyd sy'n ofynnol ar gyfer cwricwlwm cyflawn.

Mae Cwricwlwm i Gymru yn cwmpasu sgiliau entrepreneuraidd, cymryd risgiau a chyfathrebu. Mae'n annog dysgwyr i gydweithio, datrys problemau, ac mae'n galluogi creadigrwydd a hyblygrwydd. Arddangoswyd yr holl agweddau hyn wrth greu'r Maes Llafur Cytunedig ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a hoffwn ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at lunio'r ddogfen hon. Daeth y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig â gweithgor o athrawon, cynrychiolwyr o grwpiau ffydd a grwpiau digrefydd, swyddogion awdurdodau lleol, arbenigwyr ym maes CGM a gweithwyr proffesiynol eraill at ei gilydd i greu dogfen sy'n gyfredol, yn rhwydd ac yn hyblyg, a fydd yn cefnogi ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr i gyflwyno CGM. Bydd aelodau lleol o gymunedau crefyddol a digrefydd, ynghyd ag ymarferwyr o'r ardal, yn parhau i gyd-gynhyrchu deunyddiau ategol cyfoethog a chefnogol wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, gan rannu eu teithiau a'u darganfyddiadau.

Mae'n bwysig i'r holl randdeiliaid sylweddoli bod yn rhaid i bob ysgol a lleoliad 'barchu'r' maes llafur hwn y cytunwyd arno'n lleol ar gyfer CGM wrth gynllunio eu cwricwlwm ar gyfer eu sefydliadau dysgu eu hunain.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i CGM sefydlu ei le a'i effaith ar bob dysgwr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac edrychaf ymlaen at eu gweld yn cael eu gweithredu mewn ysgolion ar draws yr awdurdod lleol.

Lindsay Iorwerth Harvey (Mr)

Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Chymorth i Deuluoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Rhagair gan Gadeirydd y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig**

Mae wedi bod yn fraint fawr i mi gadeirio Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig Pen-y-bont ar Ogwr (ASC). Mae hefyd wedi bod yn gyfnod cyffrous wrth i ni edrych ymlaen at gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022. Rhagwelwyd hyn ers tro byd ers i'r Athro Graham Donaldson gyflwyno ei adolygiad o'r cwricwlwm Dyfodol Llwyddiannus. Yn yr adolygiad hwnnw mae Donaldson yn ei gwneud yn glir mai diben y cwricwlwm yng Nghymru yw ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc, ymhlith pethau eraill, yn dod yn "ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd" – un o'r pedwar diben y mae Donaldson yn eu gosod ar gyfer cwricwlwm. Mae hefyd yn ei gwneud yn glir y dylai'r holl addysgu a dysgu gael eu cyfeirio at gyflawni pedwar diben y cwricwlwm. Dyna fwriad y Maes Llafur Cytunedig hwn - i alluogi ein hysgolion i wneud hynny.

Yr egwyddor y mae cwricwlwm Donaldson yn ei dilyn yw "sybsidiaredd"; yr ysgol leol yn cynllunio ei chwricwlwm ei hun i gyd-fynd â'i hanghenion penodol ei hun gan gydymffurfio â'r egwyddorion sylfaenol fel y'u nodir yn y "Cwricwlwm i Gymru". Felly nid yw'r maes llafur hwn yn gynllun gwaith, fel y bu meysydd llafur cytunedig eraill yn y gorffennol, ond yn hytrach mae’n ganllaw defnyddiol i ganiatáu a chefnogi ysgolion yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr i ddatblygu cwricwlwm sy'n berthnasol i'w dysgwyr.

Mae sgiliau, gwybodaeth a brwdfrydedd athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith o ysgrifennu'r ddogfen hon wedi creu argraff fawr arnaf. Yn yr un modd, mae'r brwdfrydedd a'r gefnogaeth a ddangoswyd gan gynrychiolwyr grwpiau ffydd a grwpiau digrefydd ac aelodau etholedig sydd wedi ffurfio'r ASC wedi cael ei werthfawrogi'n fawr. Wrth ysgrifennu'r ddogfen hon, mae ASC Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael cefnogaeth fawr gan y cynghorydd proffesiynol o Gonsortiwm Canolbarth y De. Heb ei hymrwymiad i'r gwaith hwn, byddai wedi bod yn dasg llawer anoddach i'r ASC ddyfeisio ac ysgrifennu'r ddogfen hon. Mae'r ASC hefyd wedi cael cefnogaeth swyddogion yr awdurdod addysg lleol ac am y gefnogaeth honno mae'r ASC yn hynod ddiolchgar.

Gobeithio bod y maes llafur hwn yn "waith ar y gweill" ac wrth i gwricwla gael eu datblygu a'u cyflwyno yn ein hysgolion, y gobaith yw y byddwn yn gallu ymgorffori mewn gwahanol atodiadau enghreifftiau o arfer da ac enghreifftiau a fydd yn parhau i helpu i hyrwyddo addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ein hysgolion. Mae cyfnod heriol ond cyffrous o'n blaenau o ran y pwnc hwn sy'n rhan o Faes Dysgu'r Dyniaethau. Gwyddom y bydd ein hathrawon ac eraill yn ymateb i'r her honno. Diolchwn iddynt am eu hymrwymiad i sicrhau bod ein plant yn dod yn "ddinasyddion

egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd" y mae Donaldson yn ysgrifennu amdanynt a gobeithiwn y bydd y maes llafur hwn yn eu cefnogi yn hynny o beth.

Diolch.

Y Parchedig Ganon E J Evans, Cadeirydd, Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig Pen-y-bont ar Ogwr

**Cynnwys**


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd | 1 |
| Rhagair gan Gadeirydd y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig | 2 |
| Cynulleidfa | 5 |
| Trosolwg | 5 |
| Gweithredu | 6 |
| Dogfennau cysylltiedig | 7 |
| Maes Llafur Cytunedig Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) | 7 |
| Cynllunio eich Cwricwlwm CGM | 9 |
| Pwyntiau i ysgolion a lleoliadau Pen-y-bont ar Ogwr eu hystyried | 10 |
| Yr 'Hawl i Dynnu'n Ôl' o fewn Cwricwlwm i Gymru | 11 |
| Ystyriaethau eraill ar gyfer dylunio a gweithredu CGM | 12 |
| Deunyddiau ategol ychwanegol | 12 |
| Cyswllt | 12 |


Mae'r holl wybodaeth a amlygwyd yn 'llwyd' wedi'i chymryd yn uniongyrchol o wefan Hwb. Darperir dolenni.

## Cynulleidfa

Mae Maes Llafur Cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i ysgrifennu i fod yn hygyrch i bawb sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm CGM. Mae'r gynulleidfa arfaethedig yn cynnwys:

- pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir
- darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir
- yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion
- y pwyllgor rheoli uned cyfeirio disgyblion
- person sy'n darparu addysgu a dysgu ar gyfer plentyn, ac eithrio mewn ysgol a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu uned cyfeirio disgyblion, yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (t.56)
- awdurdod lleol yng Nghymru

Hefyd, gallai'r maes llafur cytunedig fod yn ddefnyddiol i ymarferwyr, consortia rhanbarthol, cyrff dyfarnu, Estyn, undebau athrawon, sefydliadau crefyddol, sefydliadau digrefydd, rhieni a gofalwyr a chyrff eraill yng Nghymru sydd â diddordeb mewn CGM.

## Trosolwg

### Maes llafur cytunedig

Gan mai pwnc y penderfynir arno'n lleol yw Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, y maes llafur cytunedig sy'n pennu'r hyn y dylid ei addysgu yn y pwnc ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n addysgu'r maes llafur cytunedig."  Canllawiau ar gyfer CGM

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r manylion ynghylch addysgu a dysgu o fewn elfen fandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn unol â’r Cwricwlwm i Gymru, ar gyfer holl ysgolion a lleoliadau Pen-y-bont ar Ogwr a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Mabwysiadwyd y ddogfen hon fel y maes llafur cytunedig ar gyfer CGM ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi mabwysiadu'r ddogfen hon fel y maes llafur cytunedig ar gyfer CGM ym mis Mai 2022, yn dilyn argymhelliad ffurfiol i'r awdurdod lleol gan Gynhadledd y Maes Llafur Cytunedig ar 11 Mai 2022.

" Ar ôl i faes llafur cytunedig gael ei fabwysiadu, bydd yn ofynnol i bob ysgol a lleoliad a gynhelir ystyried y maes llafur cytunedig, gan gynnwys ysgolion sydd â

chymeriad crefyddol, wrth gynllunio elfen maes llafur cytunedig eu darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg." Canllawiau ar gyfer CGM

Mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â meysydd mandadol Cwricwlwm i Gymru, 'barchu'r' Maes Llafur Cytunedig ar gyfer CGM wrth gynllunio eu cwricwlwm. Mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i adolygu'r maes llafur cytunedig bob pum mlynedd.

Mae'r maes llafur cytunedig hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod bod dull Gweithredu Fframwaith Cwricwlwm i Gymru yn seiliedig ar egwyddor sybsidiaredd ac, o'r herwydd, mae maes llafur cytunedig Pen-y-bont ar Ogwr yn cydnabod ac yn adlewyrchu awtonomiaeth pob ysgol a lleoliad wrth wireddu ei chwricwlwm ei hun.

**Gweithredu**

Bydd y maes llafur cytunedig hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn weithredol o 1 Medi 2022, ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer pob disgybl, hyd at, a gan gynnwys Blwyddyn 6. O ran disgyblion Blwyddyn 7, bydd gan ysgolion yn y rhanbarth hyblygrwydd o ran a ddylid cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022, neu gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Blynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd ym mis Medi 2023. Yn ystod cyfnod cyflwyno'r cwricwlwm, wrth i ysgol uwchradd neu leoliad 'fabwysiadu' Fframwaith Cwricwlwm i Gymru ar gyfer grŵp blwyddyn penodol, bydd y maes llafur cytunedig hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn disodli'r maes llafur presennol/etifeddol y cytunwyd arno ym Mhen-y-bont ar Ogwr. O fis Medi 2023, bydd y maes llafur cytunedig hwn mewn grym i bob dysgwr, hyd at, a gan gynnwys Blwyddyn 8, gan y bydd pob ysgol a lleoliad wedi gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer y disgyblion hynny. Ar ôl hynny, bydd y broses o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn raddol yn parhau, a bydd y maes llafur cytunedig hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn disodli'r llall:

- Disgyblion Blwyddyn 9 ym mis Medi 2024
- Disgyblion Blwyddyn 10 ym mis Medi 2025
- Disgyblion Blwyddyn 11 ym mis Medi 2026

Ceir rhagor o wybodaeth i ysgolion a lleoliadau am y broses ar gyfer optio 'i mewn' i Gwricwlwm i Gymru ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 yn 'Y daith i weithredu'r cwricwlwm'.

**Dylid cyfeirio ymholiadau ychwanegol am y ddogfen hon at:**

Clerc Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) Pen-y-bont ar Ogwr:
EDSU@bridgend.gov.uk

Neu drwy ymweld â gwefan Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr [dolen i'w hychwanegu pan fydd y ddogfen yn fyw]

**Dogfennau cysylltiedig**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

**Maes Llafur Cytunedig Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion **statudol** y Cwricwlwm i Gymru ac mae'n **fandadol** i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed:

**Mandadol**

"Mae crefydd, gwerthoedd a moeseg yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan o Faes y Dyniaethau. Mae'r Maes hwn yn cynnwys daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes. Mae'r disgyblaethau hyn yn rhannu llawer o'r un themâu, cysyniadau a sgiliau trosglwyddadwy, ac yn cynnwys eu gwybodaeth a'u sgiliau gwahanol eu hunain hefyd." Canllawiau ar gyfer CGM

**Y gofyniad cyfreithiol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)**
Mae'n hanfodol bod Penaethiaid, uwch arweinwyr a llywodraethwyr yn deall gofynion cyfreithiol CGM o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae'r rhain i'w gweld yng Nghrynodeb o ddeddfwriaeth CGM

**Mae'r Canllawiau Deddfwriaeth CGM ar gael ar wefan Hwb Llywodraeth Cymru:**
https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#religion,-values-and-ethics

Mae'r canllawiau ar CGM yn **statudol**:

**Mandadol**

"Mae'r canllawiau ar grefydd, gwerthoedd a moeseg ym Maes y Dyniaethau yn statudol a chânt eu cyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (y Ddeddf) a bwriedir iddynt helpu'r rhai sy'n gyfrifol o dan y Ddeddf am gynllunio'r maes llafur ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg fel rhan o gwricwlwm yr ysgol." Crynodeb o'r ddeddfwriaeth

Mae'r maes llafur cytunedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dilyn y canllawiau statudol ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar Hwb ac mae'n sail i'r maes llafur cytunedig hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae i'w ddarllen ar y cyd â'r ddogfen hon.

Mae'r canllawiau CGM statudol yn sail i'r maes llafur cytunedig hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer CGM ac mae'n cynnwys gwybodaeth hanfodol i ysgolion wrth gynllunio eu cwricwlwm ar lefel leol, gan gynnwys y meysydd canlynol:

- CGM o fewn Cwricwlwm i Gymru
- Datblygiad ysbrydol
- Themâu trawsgwricwlaidd
- Sgiliau trawsgwricwlaidd
- Sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben
- Egwyddorion Cynnydd o fewn y dyniaethau
- Disgrifiadau dysgu o fewn y dyniaethau
- Cynllunio eich cwricwlwm ar gyfer CGM
    - CGM a'r pedwar diben
    - CGM a'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig
    - Cysyniadau CGM
    - Y lens CGM (is-lensys o fewn CGM)
    - Cynnydd dysgwyr a theithiau dysgu o fewn CGM
    - Cyfoethogi profiadau dysgwr o fewn CGM
    - Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill
    - Pwyntiau i ysgolion a lleoliadau eu hystyried

- Sicrhau cynwysoldeb o fewn CGM
- Addysg mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir
- Addysg heblaw yn yr ysgol

Mae ysgolion a lleoliadau Pen-y-bont ar Ogwr i nodi, yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, fod y maes llafur cytunedig hwn ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn adlewyrchu'r canlynol:

- mai Cristnogol yn bennaf yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru, gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru
- y delir ystod o argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol yng Nghymru

Bydd ysgolion a lleoliadau Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn nodi'r newidiadau deddfwriaethol canlynol a fydd yn cael effaith sylweddol ar ysgolion:

- Nid oes hawl gan rieni i dynnu eu plant yn ôl o'r pwnc academaidd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Cwricwlwm i Gymru
- Rhaid i ysgolion a gynhelir sydd â phlant oedran meithrin a lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer eu holl ddysgwyr o dair oed ymlaen, gan ddechrau o fis Medi 2022
- Mae CGM ôl-16 mewn ysgolion a gynhelir yn ddewisol ar gyfer disgyblion chweched dosbarth o fis Medi 2027

**Cynllunio eich Cwricwlwm CGM**

Y man cychwyn ar gyfer unrhyw gynllun cwricwlwm yw Hwb. Bydd unrhyw newidiadau hefyd yn cael eu gwneud yn ganolog ar Hwb, felly fe'ch cynghorir i ddarllen a gwirio gwybodaeth am y Cwricwlwm i Gymru yn rheolaidd. Mae'r rhan ar Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau (Maes) hefyd yn hanfodol ar gyfer cynllunio eich cwricwlwm CGM.

Yma fe welwch y meysydd canlynol:

1. **Cyflwyniad**

2. **Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig (mandadol)**
3. **Egwyddorion cynnydd (mandadol)**
4. **Disgrifiadau dysgu**
5. **Cynllunio eich cwricwlwm**

Mae gan yr adran ar 'gynllunio eich cwricwlwm' yr wybodaeth ganlynol y byddwch hefyd yn ei chael yn ddefnyddiol:

- **Sgiliau trawsgwricwlaidd a sgiliau cyfannol**
- **Ystyriaethau penodol ar gyfer y Maes hwn**
- **Cysylltiadau allweddol gyda Meysydd eraill**
- **Themâu trawsgwricwlaidd**

**Pwyntiau i ysgolion a lleoliadau Pen-y-bont ar Ogwr eu hystyried**
Gall ysgolion a lleoliadau ddefnyddio'r cwestiynau canlynol wrth gynllunio eich cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg:

- Ydych chi wedi ystyried sut y bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gweithio orau o fewn Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried eich maes llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydy'r ffordd rydych yn cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer Crefydd Gwerthoedd a Moeseg yn helpu i wireddu'r pedwar diben?
- Ydych chi wedi defnyddio'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y Maes hwn er mwyn eich helpu i gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi defnyddio cysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio'r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi ystyried amrywiaeth o is-lensys y gellir eu defnyddio i edrych ar gysyniadau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg er mwyn helpu i gynllunio'r cwricwlwm?

- Ydych chi wedi ystyried cynnydd dysgu mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan ddefnyddio’r egwyddorion cynnydd a’r disgrifiadau dysgu Maes y Dyniaethau?
- Ydych chi wedi ystyried y 'teithiau dysgu' a ddarparwyd er mwyn eich helpu i ddeall cynnydd mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi myfyrio ar deithiau dysgu posibl eich dysgwyr eich hun er mwyn eich helpu i gynllunio’r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd i gyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg wrth gynllunio’r cwricwlwm?
- Ydych chi wedi gwneud cysylltiadau clir rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a’r meysydd dysgu a phrofiad eraill?
- Ydych chi wedi cynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg?
- Ydy’r ffordd rydych yn cynllunio’r cwricwlwm ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn sicrhau dyfnder, ehangder ac ansawdd dysgu priodol?

**Yr 'Hawl i Dynnu'n Ôl' o fewn Cwricwlwm i Gymru**

"Nid oes gan rieni hawl i ofyn am gael tynnu eu plentyn yn ôl o addysg CGM o fewn Cwricwlwm i Gymru." Crynodeb o'r ddeddfwriaeth

Yn y Cwricwlwm i Gymru mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol ar gyfer pob dysgwr o 3 i 16 oed. Mae'r amserlen ar gyfer y newidiadau hyn fel a ganlyn:

- Disgyblion oed cynradd – Medi 2022
- Disgyblion Blwyddyn 7 – Medi 2022 neu Fedi 2023 (yn unol â mabwysiadu Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgol)
- Disgyblion Blwyddyn 8 – Medi 2023
- Disgyblion Blwyddyn 9 – Medi 2024
- Disgyblion Blwyddyn 10 – Medi 2025
- Disgyblion Blwyddyn 11 – Medi 2026

Mae hyn yn unol â phob pwnc academaidd arall yn y Cwricwlwm i Gymru.

**Noder:** Gall rhieni ofyn i'w plant gael eu tynnu'n ôl o 'addoli ar y cyd' o fis Medi 2022, os dymunant, gan fod hyn yn wahanol ac ar wahân i bwnc academaidd CGM.

### Ystyriaethau eraill ar gyfer cynllunio a gweithredu CGM

Mae meysydd eraill o'r Cwricwlwm i Gymru, Crynodeb o'r ddeddfwriaeth CGM a Chanllawiau CGM i ysgolion a lleoliadau eu hystyried. Dyma rai o'r meysydd a'r dolenni hynny:

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Ôl-16

Cyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Datblygiad Ysbrydol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Sicrhau cynwysoldeb mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg mewn lleoliadau Meithrin a ariennir nas cynhelir

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer addysg heblaw yn yr ysgol

### Deunyddiau ategol ychwanegol ar gyfer ysgolion a lleoliadau Pen-y-bont ar Ogwr

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer CGM (CYS) Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i ddarparu deunyddiau ategol, yn ogystal â'r maes llafur cytunedig hwn. Caiff y rhain eu diweddaru'n rheolaidd gyda'r nod o ddarparu cymorth parhaus i ymarferwyr. Bwriedir i'r rhain fod yn ddogfennau, deunyddiau ac adnoddau 'byw' a gwaith i adlewyrchu esblygiad y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r awdurdod lleol a'r CYS yn croesawu cyfraniadau ac awgrymiadau ar gyfer y deunyddiau ategol ychwanegol. Gellir sefydlu pwyllgorau gwaith i gefnogi datblygiad y deunyddiau hyn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â Chlerc y CYS yn: edsu@bridgend.gov.uk

### Cyswllt

I gael rhagor o ganllawiau ar Faes Llafur cytunedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cwricwlwm CGM, cysylltwch â: edsu@bridgend.gov.uk